# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Gwynedd
# Medi 2014 – Awst 2015

Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Arwyn Thomas

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG: Cynghorydd E. Selwyn Griffiths

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2014-15
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad
3.5 Templed CYSAG Gwynedd ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol
3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol
3.7 Cynllun gweithredu CYSAG Gwynedd

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

E. Selwyn Griffiths
Cadeirydd, 2014-15

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008). Hyd at fis Mawrth 2013, hyrwyddwyd y ddogfen a deunyddiau enghreifftiol gan ymgynghorydd dyniaethau CYNNAL yn ystod cyfnodau hyfforddiant mewn swydd ac mewn ymweliadau i ysgolion. Daeth y gefnogaeth gwricwlaidd i ben ym mis Mawrth 2013.

Prif swyddogaeth CYSAG yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda*'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd';
- wahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da gyda'r aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol.

#### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Ers cyfarfod CYSAG Gwynedd ar 9 Chwefror 2011, penderfynwyd parhau â'r drefn a sefydlwyd eisoes, ac i ofyn i benaethiaid lenwi'r daflen hunan arfarnu ddiwygiedig i fonitro safonau. Mae CYSAG Gwynedd, penaethiaid ysgolion Gwynedd ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templed a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu Cyffredin (gweler Atodiad 3.5). Mae clerc CYSAG Gwynedd, sy'n swyddog gwella ansawdd addysg cynorthwyol gyda Chyngor Gwynedd, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Gofynnir i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan

arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol. Cyflwynwyd 14 adroddiad hunan arfarnu i sylw CYSAG Gwynedd yn ystod 2013-14.

Cyn 2013, roedd Cwmni CYNNAL wedi llunio canllawiau a phatrymlun ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn cynnig arweiniad i benaethiaid ac athrawon ar sut i fynd ati i gynnal ymarferiad hunan arfarnu a'r math o feini prawf dylent fod yn mesur eu hunain yn eu herbyn. Cyflwynwyd canllawiau ar gyfer arsylwi gwersi, arfarnu samplau o waith dysgwyr, dadansoddi data, dod i farn ar safonau sgiliau trawsgwricwlaidd, ac ar drafod â disgyblion.

Cyflwynwyd 14 adroddiad hunan arfarnu i sylw CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd adroddiadau gan ysgolion cynradd , yn ystod y flwyddyn: Llanbedrog, Crud y Werin, Edern, Talsarnau, Y Gorlan, Dyffryn Ardudwy, Y Garreg, Bro Tryweryn, Yr Eifl, Felinheli, Coed Mawr, Bro Plenydd, Tanygrisiau a Ffridd y Llyn.

Mae'r adroddiadau hunan arfarnu yn gofyn i ysgolion i ymateb i gwestiwn allweddol 1 a 2 o Fframwaith Arolygu Cyffredin ESTYN. Mae'r ysgolion yn cyflwyno barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr ac yn nodi'r agweddau a fydd yn cael sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Maent hefyd yn cyflwyno barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Yn sgil y broses o hunan arfarnu safonau, dyfarnodd yr ysgolion y graddau isod:

| | **Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addoli ar y cyd?** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| **Cynradd** | | 14 | | | | 14 | | | 1 | 13 | | |
| **Uwchradd** | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | | 14 | | | | 14 | | | 1 | 13 | | |

Roedd llawer o'r adroddiadau hunan arfarnu yn ymateb i ofynion CYSAGau Gwynedd a Môn trwy gyflwyno sylwadau arfarnol oedd yn seiliedig ar dystiolaeth bendant. Yn yr enghreifftiau gorau roedd y sylwadau yn feintiol ac yn fesuradwy ac yn cyfeirio at ofynion y Maes Llafur Cytûn.

## Pa mor dda yw'r deilliannau mewn addysg grefyddol?

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

Disgyblion Cyfnod Sylfaen sy'n gallu:

- ymateb yn dda iawn i straeon crefyddol a moesol ac yn datblygu'r gallu i drafod, mynegi barn ac ailadrodd straeon a phrofiadau mewn ffurfiau ysgrifenedig neu weithgareddau llafar, (Llanbedrog);
- defnyddio geirfa grefyddol syml, (Crud y Werin);
- holi cwestiynau sy'n ymwneud a phobl ac ystyr moesol neu ysbrydol storïau, (Babanod Coedmawr);
- dwyn i gof ac egluro rhai credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol, (Bro Plenydd);
- cyfrannu'n dda i brofiadau chwarae rôl wrth greu Eglwys ac ail-greu defod bedyddio, (Felinheli);

Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 sy'n gallu:

- trafod 'cwestiwn mawr' y tymor yn hyderus, effeithiol a sensitif, (Llanbedrog);
- trafod y cwestiynau sy'n codi o'u profiadau, (Crud y Werin);
- ateb cwestiynau ffeithiol am lyfrau sanctaidd, (Edern)
- dangos dealltwriaeth dda o symbolau a defodau Cristnogol, (Talsarnau)
- dramateiddio straeon Beiblaidd, (Y Gorlan);
- gwneud cynnydd disgwyliedig (2 lefel) o'r Cyfnod Sylfaen i CA2, (Y Garreg);
- egluro pam fod y capel yn le arbennig i Gristnogion ac esbonio pwysigrwydd arferion gwyliau crefyddol megis y Nadolig a'r Pasg, (Bro Plenydd);
- ymroi yn effeithiol a gyda diddordeb i'w gwaith mewn addysg grefyddol, (Tanygrisiau)
- dangos chwilfrydedd wrth iddynt gyflwyno'u syniadau a'u barnau mewn trafodaethau grŵp aeddfed iawn ar y thema, 'A oes heddwch?', (Ffridd y Llyn)
- arddangos sgiliau llythrennedd priodol wrth ysgrifennu'n estynedig ar themâu megis, 'sut mae credinwyr yn cael heddwch?' (Felinheli)

Ymhlith yr agweddau a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf, roedd ysgolion yn nodi'r angen i:

- ddatblygu gallu disgyblion y Cyfnod Sylfaen i esbonio effaith crefydd ar fywydau credinwyr (Crud y Werin);
- ddatblygu mwy o ddyfnder yn nealltwriaeth disgyblion hynaf CA2, (Talsarnau);
- ddatblygu gallu disgyblion i drafod credoau a'r hyn sydd yn bwysig iddynt o ran moesoldeb a derbyn nad yw safbwynt pawb yn mynd i fod yr un fath, (Babanod Coedmawr);
- datblygu hyder a dealltwriaeth disgyblion ar draws yr ysgol wrth iddynt ymdrin â chwestiynau crefyddol, (Ffridd y Llyn).

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addysg grefyddol?**

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- yr ystod eang o adnoddau sydd ar gael i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen, (Crud y Werin);
- y cynlluniau manwl, yn seiliedig ar gwestiynau mawr, sy'n sicrhau dilyniant a datblygiad mewn sgiliau addysg grefyddol, (Crud y Werin);
- y defnydd a wneir o 'gwestiwn mawr' fel sbardun i'r disgyblion a'u hathrawon i lunio trywyddau ymholi. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd i ymchwilio, casglu gwybodaeth, creu a dadansoddi holiaduron, edrych ar dystiolaeth weledol ac arteffactau, mynd ar ymweliadau, trafod gyda chyd ddisgyblion ac ymwelwyr, (Llanbedrog);
- y teithiau addysgol sy'n ychwanegu at ddealltwriaeth y plant, *e.e. ymweliadau megis Mosg Bangor, Eglwys Uniongred Ffestiniog, pererindod o Glynnog Fawr i Aberdaron*, (Edern)
- yr amrediad o dasgau ysgrifennu a roddir i ddisgyblion, *e.e. sgyrsiau a deialogau, myfyrdodau, llythyrau, portreadau a gweddïau*, (Talsarnau, Dyffryn Ardudwy));
- y cyfleoedd rheolaidd a ddarperir i ddisgyblion ddarllen er mwyn cywain gwybodaeth grefyddol, (Dyffryn Ardudwy);
- y defnydd o lyfrau fel sail i drafodaethau ar safbwyntiau, ystyr moesol neu ysbrydol, (Babanod Coedmawr);
- bod pob agwedd o addysg grefyddol yn cael sylw dwywaith dros gyfnod o bedair blynedd, (Bro Plenydd);

- y cyfleodd i ddisgyblion gynllunio, datblygu a myfyrio ar eu dysgu o fewn cyd-destun addysg grefyddol, (Ffridd y Llyn);
- y cyd-lyned rhwng y ddarpariaeth ar gyfer y CS a CA2, (Y Felinheli);

Ymhlith yr agweddau fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf mae'r ysgolion yn nodi'r angen i:

- gyflwyno mwy o waith rhifedd drwy addysg grefyddol, (Llanbedrog, Dyffryn Ardudwy. Bro Tryweryn, Tanygrisiau);
- gyflwyno mwy o dasgau ysgrifennu estynedig mewn addysg grefyddol (Dyffryn, Ardudwy, Bro Tryweryn);
- ychwanegu at y cyfleoedd i ddatblygu medrau TGCh o fewn addysg grefyddol, (Yr Eifl);
- barhau i gyflwyno agweddau o asesu ar gyfer dysgu yn y gwersi addysg grefyddol, (Edern);
- ymateb i ganfyddiadau holiaduron dysgwyr (Mai 2014) oedd yn dangos nad oedd 30% o'r disgyblion CA2 yn mwynhau'r pwnc, (Y Garreg);
- lunio tasgau gwahaniaethol er mwyn ymestyn y disgyblion haen uwch i gyrraedd lefelau uwch addysg grefyddol, (Bro Plenydd, Ffridd y Llyn);
- ddarparu cyfleoedd i astudio crefyddau'r Byd, (Babanod Coedmawr, Ffridd y Llyn);
- sicrhau bod y cydlynydd yn derbyn hyfforddiant priodol er mwyn arwain addysg grefyddol yn yr ysgol, (Y Felinheli).

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

Roedd pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- bod disgybl yn cael cyfle i 'anfon y gannwyll' ar ddiwedd y sesiwn addoli ar y cyd fel bod pawb yn cael munud o dawelwch i fyfyrio dros ddigwyddiad neu i feddwl am sefyllfa arbennig, (Llanbedrog);
- yr arferiad o gyd ganu emynau traddodiadol a chyfoes yn rheolaidd, (Y Gorlan)
- yr ethos a'r ymdeimlad arbennig sy'n nodweddi'r gwasanaethau torfol, (Y Garreg);
- bod pob dosbarth yn gyfrifol am ddarparu a chyflwyno cyflwyniad moesol ac ysbrydol unwaith y tymor (Babanod Coedmawr);

Ymhlith y materion a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae:

- angen datblygu cysylltiadau gyda chymunedau crefyddol lleol, (Babanod Coedmawr, Crud y Werin, Tanygrisiau);
- ymateb i arfarniad y disgyblion trwy sicrhau bod y disgyblion hynaf yn cael mwy o ran yn y gwasanaethau a bod y gwasanaethau torfol yn fyrrach, (Edern);
- sicrhau mwy o gyfleoedd i'r disgyblion gymryd rhan a chyfrannu mewn gwasanaethau ysgol gyfan, (Talsarnau);
- creu naws arbennig i'r gwasanaeth er mwyn annog ethos o fyfyrdod, (Y Gorlan, Bro Tryweryn) a gwahaniaethu'n glir rhwng hyn sy'n addoliad a'r hyn sy'n gyfarfod ysgol gyfan, (Ffridd y Llyn);
- annog y Cyngor Ysgol i fynegi barn ar yr hyn yr hoffent ei weld yn datblygu yn y sesiynau addoli ar y cyd, (Dyffryn Ardudwy);
- sicrhau cysondeb yn ansawdd y sesiynau addoli ar y cyd torfol a dosbarth, (Bro Plenydd);

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau rheolaethol cydlynwyr ac arweinyddion pwnc;
- Sicrhau bod ysgolion yn derbyn copïau o 'Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN), a 'Canllawiau ynglyn ag addoli ar y cyd' (Cymdeithas CYSAGau Cymru';
- Sicrhau bod ysgolion yn cyflwyno eu hadroddiadau hunan arfarnu i sylw CYSAG.

### 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

**Asesiadau athrawon: Addysg Grefyddol CA3**

Mae adrannau yn dod i farn am gyflawniad disgyblion ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion ac yn defnyddio canfyddiadau'r rhaglen safoni genedlaethol (2010-12) a chanllawiau Llywodraeth Cymru i'w cynorthwyo:

- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)

Nid yw Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn casglu canlyniadau CA3 Addysg Grefyddol felly nid oes modd cymharu perfformiad ysgolion uwchradd Gwynedd gydag ysgolion eraill ar draws Cymru. Mae CYNNAL yn casglu data perfformiad CA3 ar ran awdurdodau Môn (M), Gwynedd (G) a Chonwy (C).

| **Blwyddyn** | **Ysgolion** | **Disgyblion** | | **%L5+** | | **%L6+** | | **%L7+** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M+G+C* | Gwynedd | M+G+C | Gwynedd | M+G+C | Gwynedd | M+G+C | Gwynedd | M+G+C |
| 2014 | 5(5)+11(14)+0(0) | 1,048 | 1,659 | 94.0 | 91.7 | 61.6 | 55.3 | 21.0 | 19.6 |
| 2013 | 5(5)+5(14)+1(7) | 462 | 1,242 | 93.5 | 88.7 | 68.4 | 52.3 | 24.9 | 18.2 |
| 2012° | 5(5)+13(14)+4(7) | 1,265 | 2,577 | 87.0 | 82.7 | 51.2 | 43.2 | 16.4 | 12.5 |
| 2011 | 3(5)+11(14)+2(7) | 1,150 | 1,773 | 81.8 | | 40.7 | | 12.5 | |

* Erbyn Hydref 2014 roedd 11 allan o 14 ysgol yng Ngwynedd wedi cyflwyno data perfformiad CA3, 5 allan o 5 ysgol uwchradd ym Môn. Nid oedd yr ysgolion arbennig wedi cyflwyno asesiadau athrawon ar gyfer addysg grefyddol. Nid oedd ysgolion Conwy wedi cyflwyno data perfformiad eleni.

° Daeth y broses o gymedroli portffolios addysg grefyddol i ben yn Haf 2012, felly gellid tybio bod cysondeb yn nealltwriaeth yr ysgolion o'r lefelau cyrhaeddiad.

- Cyflwynodd 11 o ysgolion uwchradd Gwynedd data asesiadau athrawon o gyrhaeddiad eu disgyblion ar ddiwedd CA3: Dyffryn Ogwen, Brynrefail, Eifionydd, Y Gader, Uwchradd Tywyn, Y Berwyn, Ardudwy, Friars, Tryfan, Syr Hugh Owen, Glan y Môr.
- Nid yw CYNNAL wedi derbyn data perfformiad CA3 oddi wrth: Botwnnog, Dyffryn Nantlle, Y Moelwyn
- Aseswyd 1048 o ddisgyblion CA3 yn Haf 2014.

- **Lefel 5+: Da iawn**. Cyflawnodd 94% o ddisgyblion CA3 Gwynedd Lefel 5+ mewn Addysg Grefyddol, sy'n gynnydd o 0.5% ers 2013. Mae'r ganran a dderbyniodd Lefel 5+ yn amrywio o 90.8% i 98.2%;
- **Lefel 6+: Da.** Cyflawnodd 61.6% o ddisgyblion CA3 Gwynedd Lefel 6 mewn Addysg Grefyddol, sy'n 6.8% llai nag yn 2013. Mae'r ganran a dderbyniodd Lefel 6+ yn amrywio o 43.4% i 76.8%.
- **Lefel 7+: Da.** Cyflawnodd 21% o ddisgyblion CA3 Gwynedd Lefel 7+ mewn Addysg Grefyddol, sy'n 3.9% yn llai nag yn 2013. Dyfarnwyd Lefel 7 i ddisgyblion ymhob ysgol ac mae'r canran yn amrywio o 7.9% i 38.5%
- Dyfarnwyd Lefel 3 neu is i ddisgyblion mewn 5 ysgol.
- Roedd 4 disgybl yng Ngwynedd yn deilwng o L8 mewn addysg grefyddol.

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs llawn)**

Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2013.

| | Nifer o ysgolion | Nifer o ymgeiswyr | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2014** | 12 | 111 | 220 | 331 | 27.9 | 40.0 | 36.0 | 71.2 | 80.9 | 77.6 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 42 | 46 | 45 |
| **2013** | 12 | 126 | 262 | 388 | 38.9 | 46.6 | 44.1 | 79.4 | 84.7 | 83.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 45 | 47 | 46 |
| **2012** | 10 | 113 | 190 | 303 | 37.2 | 44.7 | 41.9 | 76.1 | 83.2 | 80.5 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 44 | 46 | 45 |
| **2011** | 12 | 128 | 266 | 394 | 24.2 | 41.7 | 36.0 | 62.5 | 75.9 | 71.6 | 99.2 | 96.2 | 97.2 | 40 | 43 | 42 |
| **2010** | | 42 | 97 | 139 | 14.3 | 36.1 | 29.5 | 61.9 | 90.7 | 82.0 | 92.9 | 99.0 | 97.1 | 36 | 42 | 40 |

Nid yw sgôr cyfartalog y disgyblion yn eu pynciau eraill ar gael i'r arweinydd system. O ganlyniad mae'n amhriodol i gymharu perfformiadau ysgolion. Fodd bynnag, mae adrannau Addysg Grefyddol yn gallu cael mynediad i ddata sy'n dangos sut mae'r ymgeiswyr wedi perfformio mewn pynciau eraill. Fe'u cynghorir i ddefnyddio'r wybodaeth hyn yn eu hunan arfarniad.

**<u>Canlyniadau da</u>**

- 331 ymgeisydd o 12 ysgol yng Ngwynedd. Sgôr cyfartalog y pwnc yw 45, un pwynt llai na llynedd. Nid oes ymgeiswyr o Ysgol Uwchradd Tywyn. Mae ymgeiswyr Ysgol Ardudwy yn teithio i Ysgol Eifionydd er mwyn dilyn cwrs TGAU.
- Mae'r nifer o ddisgyblion mewn dosbarthiadau yn amrywio o 8 disgybl mewn un ysgol i 138 mewn ysgol arall.
- 36% o'r ymgeiswyr yn derbyn graddau A*/A (rhagoriaeth) sy'n 8.1% yn llai na llynedd. 77% o ymgeiswyr yn ennill cymhwyster level 2 (A*- C), sy'n 6.6% yn llai na llynedd. Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod safonau wedi dychwelyd i safon 2011 wedi dwy flynedd (2012 a 2013) o gynnydd.
- Mae pob ymgeisydd wedi derbyn cymhwyster Lefel 1 ers tair blynedd.
- Mae mwy o ferched na bechgyn yn dewis Astudiaethau Crefyddol fel opsiwn TGAU (B 111 : G 220).
- Mae canlyniadau'r merched yn rhagori ar ganlyniadau'r bechgyn. Mae sgôr cyfartalog y merched yn 45 mewn cymhariaeth a sgôr cyfartalog y bechgyn o 42. Mae +8 yn cynrychioli

gradd TGAU.  Mae canlyniadau L2 eleni yn awgrymu bod y bwlch (9.7%) rhwng safonau'r bechgyn a'r merched wedi cynyddu am y tro cyntaf ers pedair blynedd.  Mae'r bwlch rhwng y ganran o fechgyn a genethod sy'n cyflawni Rhagoriaeth yn 12.1% sy'n uwch na'r bwlch yn 2013 (7.7%) a 2012 (7.5%).

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs byr)**
Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2013.  Mae'r disgyblion hyn wedi penderfynu hawlio eu pwyntiau am y cwrs byr TGAU yn hytrach na pharhau gyda'u hastudiaethau am ail flwyddyn.

| | Nifer o ysgolion | Nifer o ymgeiswyr | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2014** | 7 | 122 | 168 | 288 | 25.4 | 40.4 | 34.0 | | | | | | | 23 | 26 | 25 |
| **2013** | 9 | 145 | 253 | 398 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 71.0 | 79.1 | 76.1 | 97.2 | 97.6 | 97.5 | 21 | 23 | 22 |
| **2012** | 3 | 17 | 38 | 55 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 58.8 | 84.2 | 76.4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 18 | 22 | 20 |
| **2011** | 6 | 121 | 134 | 255 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 46.3 | 67.2 | 57.3 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 18 | 21 | 19 |
| **2010** | | 223 | 323 | 546 | 0.9 | 3.7 | 2.6 | 62.8 | 82.4 | 74.4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 22 | 25 | 23 |

Nid yw sgôr cyfartalog mewn pynciau eraill yr ymgeiswyr ar gael i'r arweinydd system.  O ganlyniad mae'n amhriodol i gymharu perfformiadau ysgolion.  Fodd bynnag, mae adrannau AG yn gallu cael mynediad i'r data hyn.  Fe'u cynghorir  i ddefnyddio'r data hyn yn eu hunan arfarniadau adran.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn cael mynediad i arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC;
- Hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol i athrawon addysg grefyddol er mwyn rhannu arferion da.

## 2.3.3 Adroddiadau arolygu ESTYN

Arolygwyd 15 ysgol gynradd a 2 ysgol uwchradd* yn ystod 2014-15.

| Ysgol | Dyddiad | **Gofal cymorth ac arweiniad (2.3)** *A oes cyfeiriad at: datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol?* | **Gofal cymorth ac arweiniad (2.3)** *A oes cyfeiriad at: addoli ar y cyd?* | **Profiadau dysgu (2.1)** *A oes cyfeiriad at: Addysg Grefyddol?* | **Gweithio mewn partneriaeth (3.3)** *A oes cyfeiriad at gymunedau crefyddol lleol?* |
|---|---|---|---|---|---|
| Llanbedrog | 05/2014 | ✓ | ✓1 | ✗ | ✗ |
| Y Gorlan | 05/2014 | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ |
| Edern | 06/2014 | ✓ | ✓1 | ✓ | ✗ |
| Talsarnau | 06/2014 | ✓ | ✓1 | ✗ | ✗ |
| Crud y Werin | 07/2014 | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ |
| Dyffryn Ardudwy | 09/2014 | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Y Garreg | 10/2014 | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Bro Tryweryn | 11/2014 | ✓ | ✓2 | ✗ | ✗ |
| Yr Eifl | 12/2014 | ✓ | ✗ | ✓ | ✗ |
| Felinheli | 12/2014 | ✓ | ✓2 | ✓ | ✗ |
| Dyffryn Nantlle* | 01/2015 | ✓ | ✓2 | ✓ | ✗ |
| Coed Mawr | 01/2015 | ✓ | ✗ | ✗ | ✓ |
| Dolgellau | 01/2015 | ✓ | ✓2 | ✗ | ✓ |
| Y Gader* | 01/2015 | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ |
| Bro Plenydd | 02/2015 | ✓ | ✗ | ✓ | ✗ |
| Tanygrisiau | 02/2015 | ✓ | ✓3 | ✗ | ✗ |
| Ffridd y Llyn | 02/2015 | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ |

1. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at sesiynau 'cyd-addoli' yn hytrach nag 'addoli ar y cyd'.
2. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at 'wasanaethau boreol ysgol gyfan' a'r 'gwasanaethau dosbarth' neu 'sesiynau boreol' neu 'wasanaethau rheolaidd'
3. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at 'wasanaethau cyd-addoli rheolaidd'
4. Mae'r adroddiad yn nodi bod yr ysgolion yn darparu cwricwlwm sy'n bodloni'r gofynion statudol.

Mae'r adroddiadau yn nodi bod:

- rhan fwyaf o'r ysgolion yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol yn ysgol yn dda, tra bod y ddarpariaeth yn ychydig o ysgolion i ddigonol;
- disgyblion Cyfnod Sylfaen Ysgol Felinheli yn defnyddio map meddwl i gynllunio stori yn fedrus ac mae hyn yn arwain at waith creadigol estynedig yn seiliedig ar waith addysg grefyddol;
- nad yw disgyblion CA2 Ysgol Crud y Werin yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn addysg grefyddol;
- nad yw'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 4 Ysgol Dyffryn Nantlle yn briodol;
- sesiynau addoli ar y cyd *'ysgogol'* yn ysgol Llanbedrog, Edern, Talsarnau yn *'cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad ysbrydol a phersonol'* disgyblion.
- disgyblion Ysgol Crud y Werin yn *"elwa'n fawr o fod yn chwarae rhan arweiniol*" yn y sesiynau addoli ar y cyd;
- nad yw lleiafrif o diwtoriaid dosbarth Ysgol y Gader yn sicrhau bod addoli ar y cyd yn digwydd yn rheolaidd yn y sesiynau cofrestru boreol.

- bod disgyblion Coed Mawr a Dolgellau yn elwa o'r cyswllt effeithiol sy'n bodoli rhwng eu hysgolion ac addoldai lleol.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod Ysgol Crud y Werin, Ysgol Dyffryn Nantlle ac Ysgol Y Gader yn ymateb i sylwadau ac argymhellion ESTYN.

## 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Mrs. Mai Bere, swyddog gwella ansawdd addysg cynorthwyol Cyngor Gwynedd yn sicrhau bod arweiniad ac argymhellion CYSAG Gwynedd yn cael eu trosglwyddo i benaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae Cyngor Gwynedd yn comisiynu'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i gefnogi cyfarfodydd CYSAGau Gwynedd ac i gynrychioli CYSAG Gwynedd mewn cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol.

Gwahoddwyd Miss Menna Davies, cydlynydd addysg grefyddol Ysgol Crud y Werin i gyfarfod 11 Chwefror 2015 i amlinellu'r camau a'r gwaith a wnaed yn yr ysgol mewn ymateb i argymhellion adroddiad ESTYN. Bellach mae'r cynlluniau gwaith yn cyfeirio'n glir at y sgiliau a'r ystod ac o ganlyniad mae'r camau dilyniant rhwng B3 a B6 yn gliriach er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn gwneud cynnydd.. Cyflwynodd Ysgol Uwchradd Tywyn adroddiad ysgrifenedig yn esbonio sut oedd y ddarpariaeth yn sicrhau bod canran uchel o ddisgyblion B9 wedi cyflawni nodweddion Lefel 7 yn Haf 2014. Yn dilyn cyflwyniad gan Mary Parry (Sir Gâr) yng nghyfarfod Gwanwyn, Cymdeithas CYSAGau Cymru rhannwyd deunyddiau enghreifftiol ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd mewn addysg grefyddol CA3, 'Chwaraewyr pêl droed Mwslimaidd yn yr Uwch-Gynghrair' gan yr aelodau, i bob adran uwchradd yng Ngwynedd..

Lluniwyd cynllun gweithredu ar gyfer CYSAG Gwynedd eleni yn amlinellu pedair blaenoriaeth ar gyfer 2014-15 (gweler atodiad 3.7). Roedd y blaenoriaethau yn codi o adroddiad blynyddol 2013-14. Fodd bynnag, mewn cyfnod o doriadau cyllidol, nid oes bellach gwasanaeth ymgynghorol lleol sy'n gallu cynnig cefnogaeth neu hyfforddiant i athrawon sy'n addysgu addysg grefyddol ac mae'n her gynyddol i CYSAGau i allu cynghori a chefnogi ysgolion.

**Blaenoriaeth 1: Datblygu arweinyddiaeth dda ym maes addysg grefyddol ac addoli ar y cyd**

- Bernir bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud **cynnydd anfoddhaol/cyfyngedig/cryf/llawn** wrth fynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon oherwydd mae'r penaethiaid wedi cefnogi'r egwyddor o gyflwyno hunan arfarniad i sylw CYSAG Gwynedd ac yn derbyn canllawiau gwerthfawr trwy law'r swyddog addysg. Mae 14 ysgol gynradd wedi cyflwyno'u hadroddiadau hunan arfarnu eleni, mae aelodau CYSAG wedi trafod y rhain yn eu cyfarfodydd tymhorol ac wedi llunio adroddiad crynodol dilys o'r prif ganfyddiadau yn yr adroddiad blynyddol hwn. Er bod ansawdd yr adroddiadau hunan arfarnu wedi gwella,

prin yw’r ysgolion sydd wedi cyflwyno eu harferion gorau neu eu cynlluniau gwella i aelodau CYSAG.

**Blaenoriaeth 2: Cau’r bwlch rhwng cyflawniadau bechgyn a merched yn yr arholiadau TGAU**

- Bernir bod adrannau addysg grefyddol Gwynedd wedi gwneud **cynnydd cyfyngedig/boddhaol/cryf/llawn** wrth fynd i’r afael â’r flaenoriaeth hon oherwydd er bod mwy o fechgyn (+6) wedi sefyll arholiad TGAU Astudiaethau Crefyddol eleni mewn cymhariaeth a 2014, gwelwyd cwymp yn y sgôr pwnc cyfartalog (-2) ac yn y ganran o fechgyn a lwyddodd i gyflawni L1, A*-E (-0.9%), L2, A*-C (-6.2%) a rhagoriaeth A*/A (-7.4). Mae canlyniadau’r merched yn rhagori ar ganlyniadau’r bechgyn. Mae sgôr cyfartalog y merched (46) yn fwy na sgôr cyfartalog y bechgyn (40). Mae +8 yn cynrychioli gradd TGAU. Mae canlyniadau L2 eleni yn awgrymu bod y bwlch (18.6%) rhwng y bechgyn a’r merched wedi lledu am y trydydd blwyddyn yn olynol. Mae’r bwlch rhwng y ganran o’r bechgyn a merched sy’n cyflawni A*?A yn 19.25 sy’n fwy nag yn 2014 (12.1%), 2013 (7.77) a 2012 (7.55).

**Blaenoriaeth 3: Diweddaru gwybodaeth athrawon addysg grefyddol.**

- Bernir bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud **cynnydd cyfyngedig/boddhaol/cryf/llawn** wrth fynd i’r afael â’r flaenoriaeth hon. Er bod ysgolion yn derbyn copïau electronaidd o gyhoeddiadau perthnasol ESTYN neu Gymdeithas CYSAGau Cymru a chofnodion cyfarfodydd CYSAG Gwynedd, prin yw’r cyfleoedd i gyfarfod neu hyfforddi athrawon sy’n addysgu addysg grefyddol yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd.

**Blaenoriaeth 4: Hyrwyddo Addoli ar y Cyd o ansawdd**

- Bernir bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud **cynnydd cyfyngedig/boddhaol/cryf/llawn** wrth fynd i’r afael â’r flaenoriaeth hon. Mae adroddiadau hunan arfarnu’r ysgolion yn nodi bod pob ysgol a gyflwynodd adroddiad, yn cydymffurfio â’r gofynion statudol. Gwerthfawrogir cefnogaeth arweinwyr crefyddol lleol sy’n cyfrannu’n fuddiol i sesiynau addoli ar y cyd yn yr ysgolion. Mae bron pob adroddiad a gyhoeddwyd yn sgil arolygiadau ESTYN yn ysgolion Gwynedd yn ystod 2014-15 yn nodi bod ansawdd yr addoli ar y cyd yn dda. Cyfeirir at sesiynau *‘ysgogol’* sy’n *‘cyfrannu’n sylweddol at ddatblygiad ysbrydol a phersonol’* disgyblion. Fodd bynnag nid yw lleiafrif o diwtoriaid dosbarth Ysgol y Gader yn sicrhau bod addoli ar y cyd yn digwydd yn rheolaidd yn y sesiynau cofrestru boreol.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod yr ymgynghorydd her yn cynnig gweithdai tymhorol er mwyn cynnig arweiniad i gydlynwyr pwnc wrth iddynt hunan arfarnu addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn eu hysgolion.
- Sicrhau bod ysgolion yn ymateb i unrhyw diffygion sydd wedi dod i’r amlwg yn ystod yr ymarferion hunan arfarnu a/neu ymweliad arolygu ESTYN.
- Ymateb i materion gweithredu 2014-15 a blaenoriaethau cynllun gweithredu 2015-16.

## 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon addysg grefyddol:

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

Yn ystod 2014-15, comisiynwyd yr Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Mae CYSAG Gwynedd wedi cyfrannu at y broses ymgynghorol, y 'Sgwrs Fawr' ac wedi trafod argymhellion y ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' a gyhoeddwyd yn Chwefror 2015.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn ymwybodol o'r canllawiau sydd ar gael ac yn gweithredu ar yr arweiniad;
- Annog athrawon addysg grefyddol Gwynedd ac aelodau CYSAG Gwynedd i gyfrannu'n llawn at unrhyw adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu;

## 2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Mae CYSAG Gwynedd yn argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (2011)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol uwchradd yn ymwybodol o gasgliadau ac yn gweithredu ar argymhellion adroddiad ESTYN.

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Gwynedd wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
    - 'Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Mehefin 2008);
    - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).

- Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Mae CYSAG Gwynedd yn argymell bod ysgolion yn defnyddio amrediad o adnoddau er mwyn darparu sesiynau addoli ar y cyd ystyrlon i'w disgyblion:
    - Safle Moodle CYNNAL: canllawiau, amserlen enghreifftiol, rhestr o lyfrau a gwefannau defnyddiol, deunyddiau enghreifftiol gan ysgolion cynradd yr ardal.
    - Gwasanaeth misol Cymorth Cristnogol. Mae'r Awdurdod yn dosbarthu'r adnoddau misol i bob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig ym Gwynedd.

Gan fod y gefnogaeth ymgynghorol i addysg grefyddol wedi gorffen ym mis Mawrth 2013 mae aelodau CYSAGau Gwynedd a Môn wedi ystyried dulliau amgen o gyflawni eu dyletswyddau i fonitro safonau a chynghori'r awdurdod addysg. Dosbarthwyd holiadur i aelodau CYSAG Gwynedd (13.06.13) ac ymatebodd deg aelod. Mae'r dadansoddiad (23.10.13) yn dangos bod:

- llawer o aelodau CYSAG Gwynedd yn teimlo'n hyderus yn eu dealltwriaeth o ofynion statudol addoli ar y cyd mewn ysgolion;
- tua hanner o'r aelodau yn barod i ymweld â sesiwn/sesiynau addoli ar y cyd mewn sampl o ysgolion pob tymor. Derbyniwyd enwau 4 aelod

**Penderfyniadau**

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;
- Annog ysgolion i wahodd aelodau o CYSAG Gwynedd i fynychu sesiynau addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.
- Sicrhau bod ysgolion ac aelodau CYSAG yn derbyn copïau o 'Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN), a 'Canllawiau ynglyn ag addoli ar y cyd' (Cymdeithas CYSAGau Cymru';
- Datblygu taflen i gynorthwyo aelodau CYSAGau i gofnodi eu canfyddiadau yn dilyn ymuno mewn sesiynau addoli ar y cyd mewn ysgolion.

## ADRAN 3: ATODIADAU

### 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Gwynedd yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**
- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,
- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a’r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2014-15

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | Mr Wyn Miles Meredith |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Mrs Ruth Davies |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Dr. W Gwyn Lewis |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Parch Robert Townsend |
| Undeb yr Annibynwyr | Mr Cynrig Hughes |
| Yr Eglwys Babyddol | Mrs Eirian Bradley Roberts |

**Cynrychiolwyr Undebau'r Athrawon**

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) | Mrs Alwen Watkin (Ysgol Eifionydd) |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Mr Noel Dyer (Ysgol Glan y Môr) |
| Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) | Mrs Miriam Amlyn (Ysgol Eifionydd) |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | Mr Euron Hughes |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) | *disgwyl enwebiad* |
| Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL) | *Disgwyl enwebiad* |

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol**

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Huw Edwards | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cadeirydd) | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Mair Rowlands | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Tom Ellis | Annibynnol |
| Cynghorydd Jean Forsyth | Annibynnol |
| Cynghorydd Llywarch Bowen Jones | Llais Gwynedd |
| Cynghorydd Gwenno Glyn | Llais Gwynedd/Plaid Cymru |

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

Mr Rheinallt Thomas
Mr Gwyn Rhydderch
Parch Aled Davies

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Mr Dewi Jones | Pennaeth Adran Addysg Gwynedd |
| Mr John Blake/Mrs Mai Bere | Swyddog Addysg a chlerc CYSAG Gwynedd |
| Miss Bethan James | Arweinydd System GwE |
| Mrs Glynda O'Brien | Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu |

## 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2014-15

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2014 – 2015, cyfarfu CYSAG Gwynedd ar dri achlysur:

22 Hydref 2014
11 Chwefror 2015
10 Mehefin 2015

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rai ohonynt yng nghorff yr adroddiad hwn:

**a) Cyfarfod 22 Hydref 2013**

- Adroddiad blynyddol (drafft) CYSAG Gwynedd 2013/2014
- Hunan arfarniadau ysgolion: Llanbedrog, Crud y Werin, Edern, Talsarnau
- Safonau addysg grefyddol: asesiadau athrawon ac arholiadau allanol
- Cynllun Datblygu drafft CYSAG Gwynedd 2014-15
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno adroddiad llafar o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2014 yn Llandrindod Wells (Powys).

**b) Cyfarfod 11 Chwefror 2014**

- Hunan arfarniadau ysgolion: Y Gorlan, Dyffryn Ardudwy, Y Garreg, Bro Tryweryn
- Cyflwyniad ysgol: Ymateb i argymhelliad ESTYN, cyflwyniad gan Miss Manon Davies, cydlynydd addysg grefyddol Ysgol Crud y Werin
- Cwricwlwm i Gymru: cyflwyniad gan Ymgynghorydd Her GwE
- Cynllun Gweithredu CYSAG 2014-15
- Adroddiad Blynyddol CYSAG Gwynedd (terfynol) 2013-14
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2014 yn Nhorfaen.

**c) Cyfarfod 10 Mehefin 2015**

- Addoli ar y Cyd: adroddiad gan Ymgynghorydd Her GwE
- Datblygu Llythrennedd a Rhifedd mewn Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 3: adroddiad gan Ymgynghorydd Her GwE
- Diweddariad ar ymgynghoriad Yr Athro Donaldson ar Gwricwlwm i Gymru: adroddiad gan Ymgynghorydd Her GwE
- Hunan arfarniadau ysgolion: Coed Mawr, Bro Plenydd, Tanygrisiau, Yr Eifl, Ffridd y Llyn, Felinheli
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2015 yng Nghastell Nedd Port Talbot.

**3.3.1** Mae CYSAG Gwynedd wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y

mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y cynrychiolwyr canlynol:

- Mrs Miriam Amlyn

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y sylwebyddion canlynol:

- Miss Bethan James – Ymgynghorydd Her GwE
- Mr Rheinallt Thomas

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Mr Dewi Jones/Mr Arwyn Thomas, Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Mr John Blake/Mrs Mai Bere, Swyddogion Addysg sy'n gweithredu fel Clerc CYSAG
Miss Bethan James, Ymgynghorydd Her, GwE
Mrs Glynda O'Brien, Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu ac yn gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Gwynedd

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

**3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG**

Dosberthir copi electronaidd o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
- Arweinydd y Cyngor
- Cymdeithas CYSAGau Cymru
- Ysgolion Gwynedd

**Darperir copi papur i:**

- Aelodau CYSAG Gwynedd

## 3.4 Templed CYSAG Gwynedd ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

### Rhesymeg

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred **CYSAG Gwynedd** y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae **CYSAG Gwynedd** wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:
- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae **CYSAG Gwynedd** felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod **CYSAG Gwynedd** ar 9 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

| **Manylion cyswllt:** | |
|---|---|
| **Enw (Clerc CYSAG):** | **Mrs Mai Bere** |
| **Cyfeiriad:** | Adran Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH |

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol:** **Cyfeiriad:**

| Addysg Grefyddol |
|---|
| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** |
| • Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad. |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1, Maes Llafur Cytûn Lleol, Addysg Grefyddol, Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011), Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011), Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009), Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013), Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr CBAC. |
| **Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu** |
| **Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl** |
| **Materion i gael sylw** |

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?** |
|---|
| • Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.<br>• Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.<br>• Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol). |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.1 a 2.2, Maes Llafur Cytûn Lleol, Addysg Grefyddol, Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011), Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011), Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009), Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013), Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr CBAC. |
| **Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau** |
| **Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl** |
| **Materion i gael sylw** |

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| Addoli ar y Cyd | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | | | | | | |
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | | | | **Ydy** | | **Nac ydy** | |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2011) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012). | | | | | | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod: (Pennaeth)
Dyddiad:

## 3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

**Beth mae'r tabl TGAU (cwrs llawn) yn dangos?**

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B \| G \| Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU llawn mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B \| G \| Σ | Dyma'r ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill A* neu A mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % L2<br>B \| G \| Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 2 yn cyfateb i raddau A* i C mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i C mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| %L1<br>B \| G \| Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 1 yn cyfateb i raddau A* i G mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i G mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B \| G \| Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* felly yn gyfwerth a 58 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 40 phwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (⍰) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn a'r genethod mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. Mae'r symbol Σ yn cynrychioli'r cyfanswm o'r ymgeiswyr |

**Beth mae'r tabl TGAU (cwrs byr) yn dangos?**

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B \| G \| Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU byr mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B \| G \| Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cyrsiau byr yn cyfrannu 10% o bwyntiau i'r trothwy Lefel 1 a Lefel 2. 29 pwynt yw gwerth A* mewn cwrs byr. |
| % L2<br>B \| G \| Σ | |
| % L1<br>B \| G \| Σ | |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B \| G \| Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* (cwrs byr) felly yn gyfwerth a 29 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 11 pwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (÷) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn, genethod a chyfanswm y grŵp dysgu mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. |

## 3.7 Cynllun Gweithredu CYSAG Gwynedd 2014-15

| Adroddiad Blynyddol CYSAG Gwynedd 2012-13 | Camau Gweithredu 2013-15 | Tystiolaeth | Deilliannau | |
|---|---|---|---|---|
| **Datblygu arweinyddiaeth dda ym maes addysg grefyddol ac addoli ar y cyd**<br><br>Tudalen 8 | • Sicrhau bod pob ysgol yn derbyn arweiniad ar hunan arfarnu addysg grefyddol ac addoli ar y cyd.<br>• Cyflwyno amserlen a threfn hunan arfarnu<br>• Rhannu arferion da mewn cyfarfodydd CYSAG.<br>• Hwyluso rhannu arferion da | • Canllawiau hunan arfarnu<br>• Amserlen a threfn hunan arfarnu.<br>• Adroddiadau Hunan arfarnu'r ysgolion<br>• Cofnodion CYSAG Môn<br>• Cofnodion cyfarfodydd athrawon. | • Bron bob un ysgol wedi cyflwyno hunan arfarniad o safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd erbyn Haf 2015.<br>• CYSAG wedi paratoi adroddiad crynodol tymhorol a blynyddol o safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd.<br>• Gwahodd ysgolion i gyflwyno eu harferion gorau i aelodau CYSAG | ☺<br>😐<br>☹ |
| **Cau'r bwlch rhwng cyflawniadau bechgyn a merched yn TGAU.**<br><br>Tudalen 11 a 12 | • CYSAG i lythyru penaethiaid uwchradd i sicrhau bod athrawon yn cael mynediad i gefnogaeth CBAC ac yn ymwybodol o Adroddiad Thematig ESTYN.<br>• Annog athrawon TGAU i rannu arferion da mewn rhwydwaith/CDP. | • Llythyron i benaethiaid<br>• Cofnodion rhwydwaith/CDP addysg grefyddol TGAU<br>• Cylchlythyr/adroddiad y Prif Arholwr. | • Mwy o fechgyn yn dewis TGAU Astudiaethau Crefyddol;<br>• Y bwlch rhwng canlyniadau'r bechgyn a'r marched yn parhau i gau. | ☺<br>😐<br>☹ |
| **Diweddaru gwybodaeth athrawon addysg grefyddol, e.e. canllawiau Llywodraeth Cymru, ESTYN.**<br><br>Tudalen 14 | • CYSAG i ddiweddaru a chylchredeg rhestr o ganllawiau perthnasol. | • Llythyr/Cylchlythyr i ysgolion<br>• Y dogfennau ar gael ar wefan Moodle CYNNAL. | • Hunan arfarniadau ysgolion yn dangos bod athrawon yn cynllunio gwersi sy'n ymateb i arweiniad Llywodraeth Cymru (cynradd ac uwchradd) ac yn adlewyrchu arferion da Adroddiad thematig ESTYN (uwchradd) | ☺<br>😐<br>☹ |
| **Hyrwyddo Addoli ar y Cyd o ansawdd**<br><br>Tudalen 15 | • CYSAG i lythyru ysgolion i sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r deunyddiau diweddaraf ar gyfer addoli ar y cyd.<br>• Codi ymwybyddiaeth aelodau CYSAG o natur addoli ar y cyd mewn ysgolion. | • Llythyr/cylchlythyr i ysgolion<br>• Adroddiadau llafar aelodau CYSAG<br>• Cyfeiriadau tuag at addoli ar y cyd yn adroddiadau ESTYN | • Adroddiadau ESTYN yn nodi bod addoli ar y cyd yn dda.<br>• Pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.<br>• Gwell dealltwriaeth ymhlith aelodau CYSAG o natur addoli ar y cyd mewn ysgolion. | ☺<br>😐<br>☹ |